Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Llannon

**Heol Y Nant**
**Llannon**
**Llanelli**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA14 6AE**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Llannon

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Gynradd Llannon |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Categori 3 - Ysgol cyfrwng Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | d/b |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 94 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 78 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 9 oed meithrin |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 5.3% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 7.7% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 19.2% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | Dim |
| Dyddiad penodi’r pennaeth | 01/09/2024 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw’n berthnasol) | 04/02/2019 |
| Dyddiad dechrau’r arolygiad | 04/11/2024 |

Daw’r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i’r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae’r term ‘anghenion dysgu ychwanegol’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae'r pennaeth dros dro yn cydweithio'n llwyddiannus â'r staff i wneud yr ysgol yn lle hapus i ddisgyblion. Mae'n arwain yr ysgol yn effeithiol mewn ffordd dawel ond hyderus ac yn canolbwyntio'n dda iawn ar wella dysgu a lles disgyblion. Ynghyd â'r arweinwyr eraill, mae'n gwybod beth yw cryfderau'r ysgol a'r hyn sydd angen ei wella ac mae ganddynt ffyrdd effeithiol i wneud y gwelliannau hyn.

Mae'r ysgol yn lle diogel sy'n canolbwyntio'n dda ar bethau fel parch, lles a gofal, a gwneud y disgyblion yn falch o'u cymuned ac o Gymru. Maent yn annog disgyblion i fod yn hapus, i fwynhau dysgu ac i ymddwyn yn ardderchog. O ganlyniad, mae bron bob un disgybl yn hapus i fynychu'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Maent yn teimlo bod oedolion yn eu parchu, yn eu trin yn deg ac yn gwrando arnynt pan fydd ganddynt unrhyw bryderon. Mae gan yr ysgol nifer o bwyllgorau sy'n rhoi cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldebau, a datblygu medrau arwain effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon a staff eraill yn datblygu medrau disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn monitro'r dysgu yn rheolaidd ac yn rhoi cymorth ychwanegol i ddisgyblion, pan fydd angen. Maent yn sicrhau bod y rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ynghyd ag ystod eraill o fedrau mewn amrywiol feysydd dysgu. Un o gryfderau'r ysgol yw sut mae disgyblion o bob cefndir ieithyddol yn dod i siarad Cymraeg yn fuan. Mae athrawon a chynorthwywyr yn ymateb yn dda i waith disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn datblygu i fod yn ddysgwyr effeithiol sy'n cymryd cyfrifoldeb aeddfed am eu dysgu.

Mae athrawon yn ystyried syniadau disgyblion wrth gynllunio'r cwricwlwm. Mae hyn yn gwneud y dysgu'n fwy diddorol iddynt. Maent yn aml yn cynllunio gweithgareddau sy'n rhoi cyfle i ddisgyblion ymarfer y medrau maent wedi eu dysgu mewn gwahanol gyd-destunau diddorol. Er hyn, ar adegau, nid oes cyswllt digon agos rhwng y medrau mae disgyblion yn eu hymarfer yn y gweithgareddau hyn a'r rhai y maent wedi eu dysgu mewn sesiynau blaenorol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1 Sicrhau bod athrawon yn cynllunio gweithgareddau priodol i gyfoethogi'r dysgu, sy'n galluogi disgyblion i ymarfer a chymhwyso'r union fedrau maent eisoes wedi cael profiad ohonynt mewn gwahanol gyd-destunau

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhelliad o'r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae'r pennaeth dros dro, er ei fod yn newydd i'w swydd, yn datblygu diwylliant cynhwysol i'r ysgol, sy'n ystyried barn y staff a disgyblion yn rheolaidd. Mae'n meddu ar ddull arwain tawel ond hyderus ac yn rhoi cyfeiriad strategol cadarn ac effeithiol i'r ysgol, sy'n canolbwyntio'n dda iawn ar wella dysgu a lles disgyblion. Mae'n gosod disgwyliadau uchel ar gyfer staff, disgyblion ac ef ei hun.

Mae gwerthoedd yr ysgol yn glir ac wedi'u seilio ar egwyddorion fel parch, lles a gofal, a hybu balchder yn y disgyblion am eu cymuned, am Gymru a'u Cymreictod. Maent yn annog disgyblion i fod yn hapus ac i fwynhau dysgu, i ddatblygu gwydnwch a hyder, i gydweithio, cymryd risgiau a bod yn arloesol, yn gymwynasgar ac yn garedig. Mae gan staff ddisgwyliadau uchel mewn perthynas â chwrteisi a gofal. Mae hyn yn rhan annatod o'r ddarpariaeth, ac yn ei dro yn meithrin a datblygu disgyblion sy'n ymddwyn yn ardderchog ac sy'n ofalgar iawn o'i gilydd.

Mae bron bob un disgybl yn hapus i fynychu'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Maent yn teimlo bod oedolion yn eu parchu, yn eu trin yn deg ac yn gwrando arnynt pan fydd ganddynt unrhyw bryderon. Mae'r amgylchedd dysgu yn lliwgar, ysgogol a difyr i ddisgyblion. O ganlyniad, mae bron bob un yn arddangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu, yn mwynhau eu tasgau ac yn ymroi iddynt yn frwdfrydig.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn i olrhain cynnydd disgyblion ac mae staff yn eu defnyddio'n effeithiol i fonitro'r dysgu ac i adnabod unrhyw anghenion penodol sydd ganddynt yn gynnar. Pan fydd yn briodol, mae staff yn cydweithio'n llwyddiannus â phartneriaid ac asiantaethau allanol i dderbyn cyngor ar wahanol ddulliau i gefnogi disgyblion ymhellach. Mae hyn yn eu galluogi i gydlynu cymorth addas i'r rheini yn unol â'r angen, gan gynnwys yr ychydig iawn o rai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Mae'r rhan fwyaf o athrawon a staff eraill yn datblygu medrau disgyblion yn effeithiol, yn drefnus ac yn raddol yn ystod gweithgareddau dysgu a thros gyfnod. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn dda ac yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ynghyd ag ystod eraill o fedrau mewn amrywiol feysydd dysgu. Beth bynnag eu cefndir ieithyddol, mae darpariaeth yr ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn dod i siarad Cymraeg yn fuan. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol, ac yn cael effaith hynod gadarnhaol ar falchder disgyblion o'u hiaith, eu gwreiddiau a'u Cymreictod.

Mae'r cwricwlwm yn gytbwys, eang a diddorol, sy'n cwmpasu'r holl feysydd dysgu a phrofiad yn briodol. Mae athrawon yn ystyried syniadau disgyblion yn gyson wrth gynllunio gweithgareddau, sy'n ennyn eu diddordeb yn y themâu tymhorol a'r hyn maent am ei ddysgu. Maent yn aml yn cynllunio gweithgareddau ymestynnol i alluogi disgyblion i ymarfer a chymhwyso'u medrau mewn gwahanol gyd-destunau diddorol. Er hyn, nid yw'r gweithgareddau hyn bob amser wedi eu seilio'n ddigon uniongyrchol ar y medrau maent eisoes wedi cael profiad ohonynt mewn sesiynau dysgu blaenorol.

Mae athrawon a chynorthwywyr yn ymateb yn effeithiol i waith disgyblion. Mae ymatebion llafar ac ysgrifenedig y rhan fwyaf yn helpu disgyblion o bob oed i ddeall eu cryfderau a'r meysydd mae angen iddynt eu gwella. Defnyddir cod marcio'r ysgol yn rheolaidd ac effeithiol, er enghraifft, a chynllunnir cyfleoedd amserol a phwrpasol i

ddisgyblion ymateb i'w hadborth. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr effeithiol sy'n cymryd cyfrifoldeb aeddfed am eu dysgu.

Mae bron bob aelod staff yn cefnogi ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus. Trwy gyflwyno themâu fel ffyddlondeb, hawliau ac empathi, mae disgyblion yn ystyried safbwyntiau a gwerthoedd eraill yn aeddfed ac yn datblygu dealltwriaeth gadarn o unigolion sy'n wahanol iddyn nhw.

Mae gan yr ysgol nifer o bwyllgorau llais y disgybl sy'n rhoi cyfleoedd cyfoethog iddynt ymgymryd â chyfrifoldebau, datblygu medrau arwain effeithiol a dylanwadu'n llwyddiannus ar fywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, mae aelodau'r cyngor ysgol wedi cynllunio sawl gweithgaredd, gan gynnwys disco i godi arian at nifer o elusennau ac i brynu pyst pêl-droed newydd i gae chwarae'r ysgol.

Mae'r ysgol yn paratoi disgyblion yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion yn cael nifer o gyfleoedd i ymweld â'r ysgol uwchradd leol a chydweithio ar amrywiol brosiectau, sy'n sicrhau eu bod yn trosglwyddo'n esmwyth o un sector i'r llall, pan ddaw'r amser.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso'r ysgol yn cynnwys yr holl staff. Maent yn effeithiol, yn seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol, ac yn galluogi arweinwyr i adnabod cryfderau cyfredol yr ysgol ac i benderfynu ar flaenoriaethau synhwyrol ar gyfer gwella. Mae gweithdrefnau gwella'r ysgol yn effeithiol ac yn rhoi blaenoriaeth synhwyrol i'r materion cywir yn amserol. Mae gan yr ysgol hanes llwyddiannus o wneud gwelliannau, a'u cynnal, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion dros flynyddoedd lawer. Er enghraifft, o ganlyniad i gyflwyno a gweithredu amrywiol strategaethau, mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yn codi'n raddol yn flynyddol ac maent bellach yn uwch na chyfartaledd cyfraddau presenoldeb ysgolion Cymru.

Mae arweinwyr yn cynllunio ac yn cyflwyno cyfleoedd dysgu proffesiynol priodol a defnyddiol i'r staff, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion. Er enghraifft, mae'r ffocws ar addysgeg, rhifedd, datrys problemau a gwella medrau digidol staff wedi cael effaith hynod gadarnhaol ar safonau disgyblion yn y meysydd hyn.

Mae llywodraethwyr yn darparu arweiniad cadarn a rhagweithiol i'r ysgol, ac yn cynnig cymorth a her briodol i arweinwyr. Trwy arsylwi'n achlysurol mewn amrywiol sesiynau dysgu, a derbyn adroddiadau gan arweinwyr, mae ganddynt ddealltwriaeth addas o safonau a darpariaeth. Maent yn rheoli adnoddau'r ysgol yn ddarbodus.

Mae'r pennaeth dros dro wedi datblygu perthynas gynhyrchiol iawn â rhieni yn gynnar iawn. Er enghraifft, mae'n weledol wrth y fynedfa ar ddechrau'r dydd, ac yn anfon cylchlythyr rheolaidd at rieni yn eu hysbysu am ddigwyddiadau penodol ac i godi ymwybyddiaeth am lwyddiannau disgyblion. Mae arweinwyr hefyd yn gwahodd rhieni i'r ysgol i siarad am eu gwaith ac yn rhoi cyfleoedd buddiol iddynt fynychu sesiynau i ddysgu am ffyrdd y gallant helpu eu plant gartref, fel i sicrhau eu bod yn ddiogel ar y we.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y **caiff** ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/01/2025